

# Newyddlen Trafnidiaeth Llanbedr
# Transport Newsletter

Hydref/ October 2024

## Enillion Cyflym

### Gosod dwy loches bws

Yn dilyn ymweliad gan Gyngor Gwynedd ar 26 Mawrth i drafod safleoedd a mathau o lochesi fysiau derbyniwyd cadarnhad o'r gofynion gan y Cyngor Cymuned.

1. Yng nghanol y pentref ger y Fic
2. Ger Hafan Artro

**Y camau nesaf:**

- Mae cyflenwyr y lloches fysiau pren wedi gwneud gwaith arolygu o'r lleoliad wrth y Fic i sicrhau fod ganddynt y wybodaeth gywir
- Yn dilyn gwaith paratoi, y bwriad ydi i osod y llochesi yn ystod yr Hydref

## Quick Wins


### Installation of two bus shelters

Following a visit by Cyngor Gwynedd to Llanbedr on 26 March to discuss types of bus shelters a confirmation of the requirements was received by the Community Council.

1. Centre of the village near the Vic
2. Near Hafan Artro

**Next steps:**

- The wood bus shelter suppliers have surveyed the site near the Vic to ensure they have the correct information
- Following preparation work, the aim is to install the bus shelters during the Autumn






# Y Broses WelTAG

Fel y cofiwch o'r newyddlen blaenorol, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae proses WelTAG yn cael ei dilyn gyda'r gwaith ehangach i ystyried opsiynau posib. Mae'r ymgynghorwyr WSP wedi bod yn cydweithio gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) drwy'r haf i ddatblygu'r mesuriadau sydd yn rhan o'r Pecynnau Opsiynau yng Ngham 1 o'r WelTAG, yn cynnwys Ffordd Liniaru Cyflymder isel. Yn dilyn cwblhau'r drafft cyntaf o'r cynlluniau mis nesaf, mi fydd unrhyw fesuriadau na ellir eu cyflawni o safbwynt cynllunio yn cael eu diystyru, cyn pecynnu mesuriadau gyda'i gilydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y flwyddyn newydd.

Hefyd, mae WSP wedi bod yn cydweithio gyda YGC, Cyngor Gwynedd, Trafnidiaeth Cymru, a Llywodraeth Cymru i ystyried y cyflymder mwyaf addas ar gyfer ffordd newydd bosib yn Llanbedr. Maent yn y broses o gynhyrchu Nodyn Technegol sydd yn ystyried yr effaith y buasai gwahanol gyflymder yn gael ar elfennau allweddol, fel diogelwch, gwydnwch, a charbon, ac ar ôl hynny bydd yn eu cyflwyno i Weithgor Llanbedr ar gyfer cytundeb.

Maent yn gobeithio cysylltu â rhai o rhanddeiliaid allweddol yn y misoedd nesaf i drafod faint fyddai mesuriadau penodol yn gallu effeithio ar eu hardaloedd. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau fod pawb yn cydweithio gyda'r gymuned leol i ddarparu gwelliannau mwyaf buddiol i Lanbedr.

# WelTAG Process

As you'll remember from the previous newsletter, in accordance with the Welsh Government's expectations, a WelTAG process is being followed with the wider work to consider improvement options. The consultants WSP have been working alongside Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) through the summer to develop the measures included as part of the Option Packages at WelTAG Stage 1, including the Low-Speed Relief Road. Following completion of the first draft of designs next month, any measures that are not deliverable from a design perspective will be discounted, before packaging measures together for public engagement in the new year.

WSP have also been collaboratively working with YGC, Cyngor Gwynedd, Transport for Wales, and Welsh Government to consider the most suitable speed limit for a potential new road at Llanbedr. They are in the process of producing a Technical Note that considers the potential impact various speeds on key elements, such as safety, resilience, and carbon, which will be subsequently presented to the Llanbedr Working Group for agreement.

They are hoping to reach out to some key local stakeholders in the coming months to discuss how specific measures could impact on their localities. This will also help to ensure that everyone is working together with the local community to provide improvements of most benefit to Llanbedr.

## Cyllid

Yn wreiddiol cafodd hyd at £200,000 ei wneud ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- Cwblhau astudiaeth WelTAG Cam 2 ar welliannau trafnidiaeth yn ac o amgylch Llanbedr a bwrw ymlaen ag allbwn astudiaeth Cam 2

Mae £400,000 ychwanegol bellach wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Mae’r cyllid yma wedi ei ddarparu er mwyn ymgymryd â’r gwaith fyddai ei angen ar gyfer cychwyn materol o safbwynt yr hawl cynllunio sydd yn ei le ar gyfer ffordd newydd. Fe fydd hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflawni 9 o amodau’r hawl cynllunio cyfredol drwy gyflwyno amryw o asesiadau, manylebau a dyluniadau. Fe fydd peth gwaith ffisegol cychwynnol yn digwydd hefyd.

## Finance

Up to £200,000 was initially made available for the financial year 2024/25 following a successful application to the Welsh Government Local Transport Fund:

- To complete a WelTAG Stage 2 study on transport improvements in and around Llanbedr and take forward the output of the Stage 2 study

An additional £400,000, for this financial year, has now been secured from the Welsh Government. This funding has been provided to undertake work required for a material start in terms of the planning consent that is in place for a new road. This will be used to fulfil 9 of the current planning consent conditions by submitting various assessments, specifications, and designs. There will also be some initial physical works.

## Cyfathrebu

Mae cynrychiolwyr o  Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru yn cyfarfod yn fisol fel Gweithgor i drafod/adrodd ar waith trafnidiaeth yn Llanbedr.

Mae'r Gweithgor yma yn cyfathrebu gyda'r gymuned drwy'r Cynghorwyr Sir Lleol Annwen Hughes a Gwynfor Owen ynghyd a Chyngor Cymuned Llanbedr, a drwy Newyddlen rheolaidd.

**Mae'r wybodaeth am y gwaith gan gynnwys y Newyddlenni diweddar a blaenorol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r linc yma**
www.gwynedd.llyw.cymru/TrafnidiaethLlanbedr

## Communication

Representatives from Cyngor Gwynedd, Eryri National Park, Transport for Wales and the Welsh Government meet every month as a Working Group to report/discuss the transport work in Llanbedr.

The Group communicates with the community through Local County Councillors Annwen Hughes and Gwynfor Owen along with Llanbedr Community Council and a regular Newsletter.

**The most recent and previous Newsletters along with information about the work is available on Cyngor Gwynedd's website through this link**
www.gwynedd.llyw.cymru/LlanbedrTransport